**Comisiwn y Cynulliad**
**Assembly Commission**

# CCCC 2008 (Papur 3 Rhan 1)

**Dyddiad:** 4 Rhagfyr 2008
**Amser:** 1.30pm
**Lleoliad:** Ystafell Gynadledda 4B
**Enw a rhif cyswllt yr awdur:** Keith Bush (8507)

## Datblygu'r Gwasanaethau Cyfreithiol

***Paratowyd y papur hwn i'w ystyried gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Penderfynwyd ei bod yn addas ei gyhoeddi wedi iddo gael ei ystyried yn unol â rheolau'r Comisiwn ar gyfer cynnal busnes. Ni chaniateir i gynnwys y papur hwn gael ei gyhoeddi na'i ddatgelu'n rhy gynnar oherwydd gallai hyn ddylanwadu ar drafodaethau'r Comisiwn.***

**Diben a chrynodeb o'r materion**

**1. Diben y papur hwn yw:**

**a) rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y cynnydd tuag at sicrhau y gall Gwasanaeth Cyfreithiol y Cynulliad gyfrannu'n effeithiol at sicrhau ymateb hydreus i newid cyfansoddiadol a galluogi'r Cynulliad i wneud defnydd llawn ac effeithiol o'i bwerau deddfu newydd tra'n datblygu ei effeithiolrwydd o ran craffu ar waith Gweinidogion Cymru;**

**b) galluogi'r Comisiwn i ystyried y camau pellach y mae cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol yn eu cymryd i weithredu'r cynllun ar gyfer datblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol a gymeradwywyd gan y Comisiwn Cysgodol ym mis Ionawr 2007 ac a gefnogwyd gan y Comisiwn ym mis Tachwedd 2007.**

**Argymhellion**

2. Gwahoddir y Comisiwn i:

   a) nodi'r cynnydd a wnaed tuag at fodloni amcanion y strategaeth a gymeradwywyd gan y Comisiwn Cysgodol ym mis Ionawr 2007 ac a gefnogwyd gan y Comisiwn ym mis Tachwedd 2007;

   b) cymeradwyo'r camau rheolaidd y mae cyfarwyddwr y Gwasnaethau Cyfreithiol yn eu cymryd i weithredu'r strategaeth honno.

**Trafodaeth**

<u>Cefndir</u>

3. Yn ei gyfarfod ar 16 Ionawr 2007, ystyriodd y Comisiwn Cysgodol yr opsiynau ar gyfer datblygu Gwasnaeth Cyfreithiol y Cynulliad er mwyn bod o gymorth i swyddogaeth ddeddfu newydd y Cynulliad. Nodwyd yr opsiynau hyn mewn papur gan Peter Jones, Cwnsler Gwasanaeth Seneddol y Cynulliad.

4. Nododd y papur yr angen newydd oedd yn rhaid ei ddiwallu, sef rhoi cymorth cyfreithiol arbenigol ar gyfer maes hollol newydd o weithgaredd y Cynulliad – gwneud Mesurau'r Cynulliad – sef gweithredu pwerau deddfu cynradd yn effeithiol o fewn y terfynau perthnasol. Er mwyn cynllunio ar gyfer yr adnoddau cyfreithiol sydd eu hangen i gyflawni'r her gwbl newydd hon, ystyriwyd tair sefyllfa bosibl ar gyfer y twf yn neddfau'r Cynulliad: nifer isel, canolig ac uchel yn manteisio ar y cyfle i ddenfyddio'r pwerau newydd i ddechrau.

5. Cymeradwyodd y Comisiwn Cysgodol gynigion yn seiliedig ar y sefyllfa o gael nifer ganolig yn manteisio ar y cyfle hwn (8 gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol a 9 Mesur yn 2007/8 yn cynyddu i 10 gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol a 12 Mesur yn 2008/9). Cymeradwywyd y cais i recriwtio 3 chyfreithiwr ychwanegol (sy'n cynyddu maint y tîm cyfreithiol i 6), a bydd 2 arall (fydd yn cynyddu'r nifer i 8) yn cael eu recriwtio erbyn 2009.

<u>Cymharu'r cynnydd yn y gwaith deddfwriaethol gyda'r hyn a ragwelwyd</u>

6. Yn ystod 2007/8 ystyriodd y Cynulliad yr hyn sy'n cyfateb i 4.5 Gorchymyn[1] ac 1 Mesur.

7. Mae gwaith sy'n dadansoddi rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y Cynulliad a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2008, yn ogystal â'r nifer debygol o ddeddfwriaeth a noddir gan Aelodau a phwyllgorau, yn awgrymu mai'r ffigurau cyfatebol ar gyfer eleni (2008/9) fydd oddeutu 6 Gorchymyn a 6 Mesur.

8. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y bydd cynnydd cymharol fach yn y baich gwaith deddfwriaethol yn 2009/10. Ar hyn o bryd, nid oes digon o dystiolaeth i ragfynegi beth fydd y baich gwaith deddfwriaethol y tu hwnt i 2009/10 er bod y profiad yn yr Alban yn awgrymu y bydd y baich gwaith a ragfynegwyd gan y Comisiwn Cysgodol yn cael ei gyrraedd yn y tymor canolig.

9. Felly, mae'r twf yn y baich gwaith deddfwriaethol wedi bod yn arafach na'r hyn a ragfynegwyd i ddechrau ond bu twf cyflymach eleni ac mae'n debygol y byddwn yn cyrraedd yn agos at y lefelau y seiliodd y Comisiwn ei strategaeth arnynt yn y tymor canolig.

<u>Ehangu'r tîm cyfreithiol</u>

10. Isod ceir cymhariaeth o'r nifer wirioneddol o gyfreithwyr (gan gynnwys y cyfarwyddwr ond heb gynnwys y lleoliadau tymor byr ar gyfer

[1] Ystyriwyd nifer o'r Gorchmynion cymhwysedd deddfwriaethol dros ddwy flynedd felly roedd yn angenrheidiol cynnwys rhyw fath o amcangyfrif.

cyfreithiwyr dan hyfforddiant y Llywodraeth) ar wahanol ddyddiadau, gyda'r nifer y mae strategaeth y Comisiwn yn galw amdanynt:

| **Dyddiad** | **Y nifer y cynlluniwyd ar eu cyfer** | **Y nifer gwirioneddol** |
|---|---|---|
| Mai 2007 | 6 | 3 |
| Mai 2008 | 7 | 7[2] |
| Mai 2009 | 8 | 9[3] (rhagamcan) |

11. Felly, wedi'r oedi cychwynol o ran y cynnydd (oherwydd y dibyniad ar gyfreithwyr ar secondiad o Wasanaeth Cyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad, nad oeddent ar gael tan fis Rhagfyr 2007), mae'r cynnydd mewn cyfreithwyr yn cyfateb i'r nifer y cynlluniwyd ar eu cyfer (ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol bydd y nifer yn uwch). Gellir cyfiawnhau'r angen i ehangu'r tîm i'r lefel hon oherwydd y ffactorau a ganlyn:

a) mae'r tîm yn cynnwys 2 gyfreithiwr (3 yn flaenorol) ar secondiad o Wasanaeth Cyfreithiol Llywodraeth y Cynulliad. Mae disgwyl i'r unigolion hyn ddychwelyd i Lywodraeth y Cynulliad ym mis Rhagfyr 2010 ac mae'n hanfodol cynllunio gryn amser o flaen llaw ar gyfer hyn er mwyn sicrhau nad yw'n gadael bwlch yng ngallu'r tîm i ymdrin â'r baich gwaith a'r math o waith sy'n angenrheidiol.

b) mae'r tîm yn gymharol ddibrofiad. O blith y 7 cyfreithiwr sydd gennym ar hyn o bryd, dim ond 4 (gan gynnwys y cyfarwyddwr) sydd â chryn brofiad mewn ymarfer cyfreithiol llywodraethol a seneddol. Felly, mae'r gweddill yn y broses o hyd o fagu'r sgiliau angenrheidiol;

c) o ganlyniad i a) a b) mae pwysau anghymesur ar ysgwyddau aelodau mwy profiadol y tîm. Mae'n hanfodol bod digon o adnoddau wrth gefn er mwyn sicrhau y darperir gwasanaeth o'r safon orau bob amser;

d) polisi'r cyfarwyddwr o ddefnyddio'r broses recriwtio ddiweddar i sicrhau ystod eang o lefelau o brofiad cyfreithiol cyffredinol drwy dargedu cyfreithwyr ifanc sy'n gymharol ddibrofiad ond sy'n ymroddedig iawn ac y gellir datblygu eu sgiliau o ran gwaith arbenigol iawn y Cynulliad yn fwyaf effeithiol.

<u>Arwyddocâd y cynnydd araf mewn gwaith deddfwriaethol</u>

12. Ni chynyddodd y baich gwaith deddfwriaethol mor gyflym ag a ragwelwyd gan y Comisiwn Cysgodol. Ar y llaw arall, mae'r twf ym maint y Gwasanaeth Cyfreithiol wedi cyfateb i'r twf y galwodd y

---

[2] Mae hyn yn cynnwys 3 unigolyn ar secondiad y mae disgwyl iddynt ddychwelyd i'r Llywodraeth yn 2010.

[3] Mae hyn yn cynnwys 2 unigolyn ar secondiad y mae disgwyl iddynt ddychwelyd i'r Llywodraeth yn 2010.

Comisiwn Cysgodol amdano, wedi'r oedi cychwynnol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi golygu bod gormod o gymorth cyfreithiol ar gael, am ddau reswm:

a) mae profiad wedi dangos pa mor ddwys ac anodd yw'r gwaith o gefnogi gweithgaredd deddfwriaethol y Cynulliad (mewn partneriaeth â'r Swyddfa Ddeddfwriaeth a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau). Ni fyddai'r Comisiwn Cysgodol wedi gallu cynnwys y profiad hwn yn ei asesiad gwreiddiol o'r galw am wasanaethau cyfreithiwyr;

b) mae darparu gwasanaeth cyfreithiol effeithiol yn galw nid yn unig am nifer digonol o gyfreithwyr ond hefyd bod y cyfreithwyr hynny'n gallu cael eu hintegreiddio'n effeithiol i mewn i'r tîm a'u hyfforddi i wneud gwaith sy'n anghyfarwydd ac yn arbenigol iawn.

<u>Diwygio trefniadol</u>

13. I gyd-fynd ag ehangu'r Gwasanaeth Cyfreithiol, rhannwyd y gangen yn ddau dîm sydd â'u cleientiaid penodol (pwyllgorau, gwasanaethau gweithredol, timau deddfwriaethol ac ati) a'u meysydd o arbenigedd cyfreithiol. Mae hyn wedi golygu y gellir cadw'r unigolion sy'n cynorthwyo'r Aelodau sy'n cynnig eu deddfwriaeth eu hunain (gorchmynion cymwhysedd deddfwriaethol a Mesurau) a'r unigolion sy'n cynorthwyo'r pwyllgorau sy'n ystyried y ddeddfwriaeth ar wahân i raddau.

14. Bydd dau gyfreithiwr ychwanegol yn ymuno â'r tîm ym mis Rhagfyr 2008, a bydd hyn yn galluogi'r broses i fynd gam ymhellach drwy neilltuo un neu fwy o'r cyfreithwyr i gynorthwyo'r cyfarwyddwr yn ei waith o ddarparu cymorth cyfreithiol uniongyrchol i'r Comisiwn, yr Uned Gorfforaethol a Gweithrediadau'r Cynulliad.

<u>Gwasanaethau cyfreithiol allanol</u>

15. Gwnaed trefniadau cadarn ar gyfer sicrhau bod gwasanaethau cyfreithiol allanol o'r safon uchaf ar gael i'r Cynulliad mewn achosion addas. Mae'r rhain wedi cynnwys dulliau caffael sydd wedi arwain at:

a) gadarnhau gwasanaethau Morgan Cole, sef cwmni o gyfreithwyr yng Nghymru sydd wedi hen ennill ei dir ac sy'n fawr ei barch, i roi cyngor cyfreithiol arbenigol yn ogystal â gwasanaethau ymgyfreitha;

b) sefydlu panel bach o gwnselwyr sy'n arbenigo yn y meysydd perthnasol o gyngor ac eiriolaeth, e.e. materion cyflogi, eiddo ac eiddo deallusol;

c) sefydlu nifer o dimau bach o gwnselwyr sy'n gallu darparu gwasanaethau drafftio o ran y ddeddfwriaeth a gynigir gan Aelodau'r Cynulliad.

<u>Asesu perfformiad</u>

16. Mae'r tîm Gwasanaethau Cyfreithiol wedi ymateb i bob her sydd wedi deillio o'r gweithgaredd deddfwriaethol newydd ac, ar yr un pryd, mae wedi cadw safonau traddodiadol uchel y gwasanaeth drwy gynorthwyo'r pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yn benodol (gwaith y pwyllgor a oedd yn cynrychioli gwaith craidd gweithgaredd cyfreithiol y Cynulliad yn flaenorol).

17. Mae'r dystiolaeth wrthrychol sydd ar gael (er enghraifft canlyniadau'r arolwg o fodlonrwydd ymysg Aelodau'r Cynulliad sy'n cael ei gynnal yn rheolaidd) yn dangos bod pobl yn fodlon iawn gyda'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Aelodau sydd wedi bod yn rhan o'r prosesau deddfwriaethol wedi gwerthfawrogi'n arbennig y cymorth a roddwyd gan y Gwasanaethau Cyfreithiol (ar y cyd gyda'r Swyddfa Ddeddfwriaethol a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau).

<u>Y ffordd ymlaen</u>

18. Yn unol â'r strategaeth a fabwysiadwyd gan y Comisiwn Cysgodol ym mis Ionawr 2007 ac a gymeradwywyd gan y Comisiwn ym mis Tachwedd 2007, mae'r cyfarwyddwr yn cynnig parhau i ddatblygu'r Gwasanaeth Cyfreithiol drwy:

a) gynyddu maint y tîm ychydig naill ai tua diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol neu yn ystod 2009/10. Mae darpariaeth i alluogi hyn yn cael ei chynnwys yng nghyllideb y Comisiwn;

b) datblygu profiad a sgiliau pob aelod o'r tîm er mwyn eu galluogi (yn arbennig y newydd-ddyfodiaid) i ddarparu'r ystod llawn o wasanaethau cyfreithiol y mae'r Cynulliad eu hangen.

c) magu proffil cynyddol ar gyfer gwasanaeth cyfreithiol y Cynulliad yn y gymuned ehangach fel offeryn ar gyfer cynyddu'r wybodaeth yngylch y llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru a nifer y bobl sy'n ymgysylltu â hi.

d) sefydlu Gwasanaeth Cyfreithiol y Cynulliad fel enghraifft ar gyfer deddfwrfeydd gwledydd bychain yn gyffredinol, o ran ansawdd a lefel y gwasanaeth a ddarperir i ddeddfwyr.

**Keith Bush**

**Prif Gynghorydd Cyfreithiol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol**

**Tachwedd 2008**